# Gwahoddiad i dendro

## Llwybrau datblygu'r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol: Ymchwil ag argymhellion

### 1. Cefndir

Hoffai Cyngor Celfyddydau Cymru gomisiynu gwaith ymchwil i asesu anghenion a chyfleoedd i gynyddu'r gweithlu creadigol sy'n hyderus i weithio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Yn dilyn sgyrsiau cychwynnol, mae'n amlwg bod angen dybryd yn y sector celfyddydol, yn enwedig o ystyried gwaith cyfranogol. Mae angen ar bob maes celfyddydol ym mhob sector a chwr o Gymru i dyfu'r gweithlu creadigol sy'n medru darparu gwaith cyfranogol a chynhyrchu gwaith drwy'r Gymraeg. Mae hefyd angen sicrhau llwybrau datblygu artistiaid Cymraeg newydd ym mhob maes gan sicrhau cyfleoedd i unigolion sy'n anabl, o gefndiroedd difreintiedig a lleiafrifol ethnig.

Diffiniwn ymarferwyr creadigol fel ymarferwyr arbenigol sy'n creu, cynnal neu gefnogi gweithgarwch a chynnyrch celfyddydol. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr dawns, drama, celf weledol, cerddoriaeth a thechnegol. Rydym yn ymwybodol bod hefyd rhaid tyfu'r gweithlu gweinyddol a strategol sy'n medru gweithredu yn Gymraeg mewn sefydliadau. Rydym yn agored i gynnwys yr anghenion hyn yn yr ymchwil ond ei brif fwriad yw canolbwyntio ar weithwyr celfyddydol.
Ar hyn o bryd, sefydliadau ac unigolion sy'n ceisio mynd i'r afael â'r diffyg yn unigol. Mae cefnogaeth ar gael, ond does dim cynllun cynhwysol. Mae'n amlwg nad oes modd cynnig gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog ar lawr gwlad heb ddigon o weithwyr creadigol. Mae diffyg:

- llwybrau datblygu gweithlu creadigol ar draws Cymru ar gyfer pob maes celfyddydol
- hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg y gweithlu creadigol presennol
- gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn y gweithlu creadigol presennol

Mae'n ymddangos bod y diffygion yn wir dros Gymru a bod y pandemig wedi eu gwaethygu. Ond mae sefydliadau ac artistiaid unigol yn arwain ar waith

arloesol a chreadigol i ddarparu gwasanaethau. Dengys y gwaith presennol fod modd ac awydd mynd i'r afael â'r her pe bai modd creu cynllun.

Gofynnwn am:

- casglu gwybodaeth am y gwaith amrywiol sy'n digwydd ar hyn o bryd
- casglu gwybodaeth am y diffygion a'r cyfleoedd datblygu gweithlu creadigol
- trafod anghenion a syniadau gyda'r gweithlu creadigol, sefydliadau celfyddydol a darparwyr cyrsiau creadigol
- llunio argymhellion am ddulliau datblygu'r meysydd uchod

Byddwn yn dadansoddi'r canfyddiadau ac yn eu cynnwys yn ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau Cymraeg. Y bwriad yw creu a gweithredu cynllun rhagweithiol i wella'r sefyllfa. Bydd y gwaith yn fuddiol i ni ond bydd hefyd yn sail i ddatblygiadau helaethach.

## 2. Y cyd-destun

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol sy'n datblygu ac yn ariannu'r celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn cynnig grantiau gydag arian gan Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill.
Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a lles y genedl, gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw a gweithio ynddi ac ymweld â hi. Dyma ein hamcanion: Er Budd Pawb.

Mae'r celfyddydau yn gyfrwng i'r Gymraeg a'i diwylliant allu ffynnu – yma ac yn rhyngwladol. Nid yw hyn yn fater o gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth y Llywodraeth yn unig. Mae'n fater o ddatblygu cyfleoedd i greadigrwydd Cymraeg ac adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Cymraeg ar draws Cymru.

Rydym yn ystyried yn ddwys yr adroddiadau ymestyn ymgysylltiad (2021) a gofynion ac argymhellion cytundebau diwylliannol sefydliadau unigol. Ein bwriad yw sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r holl ddatblygiadau arfaethedig ym maes amrywiaeth a chydraddoldeb.

Mae'n glir o'n Hymchwil Mapio'r Gymraeg na allwn fod yn adweithiol ynghylch y Gymraeg. Mae gennym swyddogaeth glir wrth ddatblygu'r Gymraeg a'i hyrwyddo drwy greadigrwydd a dychymyg.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chyrraedd y targedau yng nghynllun Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru sef miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Dyma ein Safonau yma.

Rhaid i bawb sy'n cael ein harian gefnogi egwyddor gweithio'n ddwyieithog a dangos ystyriaeth o'r Gymraeg fel sydd yn yr amodau Grant Safonol i Unigolion, i Sefydliadau ac i aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Dyma'r amodau yma.

Rydym wedi gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gynhyrchu Pecyn Cymorth Gweithredu'n Ddwyieithog i sector y celfyddydau i gynorthwyo unigolion a sefydliadau. Y cam cyntaf yn y broses yw cael y marc ansawdd - Cynnig Cymraeg.

## 3. Y briff

### Nodau ac amcanion

Nod yr ymchwil yw cael gwybod am yr anghenion a chyfleoedd i dyfu a datblygu'r gweithlu creadigol sy'n medru darparu gwasanaeth a chynhyrchu gwaith yn Gymraeg a dwyieithog, wedi'i rannu'n ddau brif faes:

1. Anghenion a chyfleoedd creu llwybrau datblygu gweithlu creadigol y dyfodol gyda ffocws ar y Gymraeg
2. Anghenion a chyfleoedd i ddatblygu hyder a gallu'r gweithlu creadigol presennol i weithredu'n Gymraeg a dwyieithog

Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn llywio ein dull strategol o ran datblygu a chefnogi'r gweithlu creadigol a darparu tystiolaeth er mwyn barnu llwyddiant y cymorth. Bydd y dystiolaeth hefyd yn gallu llywio'r gwaith o gyflwyno unrhyw raglenni ariannu.

## 4. Meini prawf

### Gofynion hanfodol

Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn sail i gynllun gweithredu a bydd yn rhan o strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau Cymraeg - yma a'r tu hwnt. Bydd yn nodi posibiliadau gweithio yn y tymor byr, canolig a hir dymor. Gofynnwn i argymhellion yr ymchwil ddilyn y drefn yna.

Mae'n hysbys bod angen tyfu'r gweithlu creadigol presennol ac un y dyfodol i allu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Mae'n allweddol bod gweithwyr creadigol yn cyfrannu at y broses ymchwil. Bydd angen trafod y gofynion gyda sefydliadau celfyddydol a darparwyr cyrsiau arbenigol.

Gofynnwn ichi gynnig dulliau ymchwilio ond mae arweiniad isod:

- Llunio cwestiynau a dull o gynnal yr ymchwil
- Asesu ffyrdd presennol o gefnogi llwybrau datblygu gweithlu creadigol newydd
- Asesu ffyrdd presennol o gefnogi dulliau codi hyder y gweithlu creadigol i weithredu'n Gymraeg a dwyieithog
- Asesu ffyrdd presennol o gefnogi datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu creadigol
- Cyflwyno enghreifftiau o arfer dda a gwersi i'w dysgu
- Cyflwyno'r her bresennol i lwybrau datblygu'r gweithlu creadigol o ran y Gymraeg
- Asesu'r anghenion a'r cyfleoedd i gefnogi llwybrau datblygu gweithlu creadigol newydd
- Asesu'r anghenion a'r cyfleoedd i godi hyder y gweithlu creadigol i weithio yn y Gymraeg a dwyieithog
- Asesu'r anghenion a'r cyfleoedd i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg y gweithlu creadigol
- Ystyried anghenion a chyfleoedd gweithredu partneriaethol
- Ystyried anghenion a chyfleoedd i gyrff a sefydliadau ar wahân i ni

Gofynnwn am fanylion profiad ac arbenigedd y sawl fydd yn cynnal yr ymchwil. Gofynwn am dystiolaeth o waith ymchwil sydd wedi eu gynnal gan yr

ymgeiswyr sydd y berthnasol i'r gwaith hwn a hefyd tystiolaeth o ddealltwriaeth o'r sector celfyddydol, amrywiaeth a chydraddoldeb a datblygu iaith.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn darparu tystiolaeth ymarferol o'r canlynol:

- Lefel uchel o sgil a phrofiad ym maes datblygu'r Gymraeg
- Dealltwriaeth drylwyr o'r sector celfyddydau a materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Dealltwriaeth o lwybrau datblygu gyrfa presennol
- Methodoleg effeithiol sy'n ymateb i'r cyfyngiadau ymbellhau corfforol presennol a achoswyd gan y pandemig ond sy'n sicrhau ymgysylltiad manwl ac ystyrlon â chymunedau
- Profiad o ymgymryd â phrosiectau tebyg mewn mannau eraill
- Dealltwriaeth o flaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau a'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni
- Profiad o gyflwyno prosiectau cymhleth yn amserol ac i gyllideb
- Y gallu i ddechrau'r gwaith yn gyflym ac i weithio'n ddwys i fodloni terfynau amser
- Yn cynrychioli gwerth da am arian

## 5. Methodoleg ymchwil

Er ein bod yn nodi isod ystod o fethodolegau y gellid eu mabwysiadu ar gyfer y prosiect ymchwil, byddem yn croesawu dulliau a methodolegau creadigol ac arloesol eraill hefyd. Mae'n debygol y bydd angen gwahanol ddulliau ymchwil i fynd i'r afael â'r a'r amcanion. Cytunwn ar y fethodoleg yng ngham cyntaf y prosiect ar sail eich cynigion.

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi syniad o'r dull methodolegol a ragwelir ar gyfer y gwaith hwn, fodd bynnag, cynghorir cynigwyr i wella, adeiladu ar neu ddarparu awgrymiadau amgen, gan nodi eu cynigion eu hunain yn eu tendr.

Cynhelir cyfarfod cychwynnol rhwng swyddogion cyswllt y Cyngor Celfyddydau Cymru a'ch cynrychiolwyr a chydweithwyr perthnasol. Cytunir ar hyn

gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Cynhelir cyfarfod rhithiol pellach i drafod canfyddiadau adroddiad interim.

Rhaid i unrhyw gasglu data sylfaenol ystyried y pandemig. Dylwch osgoi cyswllt wyneb yn wyneb a dewis ffôn, ar-lein a desg yn ei le. Os caiff y mesurau eu llacio, efallai y bydd modd defnyddio dulliau amgen.

Bydd unrhyw holiadur arolwg yn cael ei drafod a'i gytuno gyda Chyngor Celfyddydau Cymru unwaith y bydd y cytundeb wedi'i sefydlu. Dylai cynigwyr amlinellu themâu, canlyniadau ac effeithiau posibl i'w harchwilio trwy arolwg.

Dylai cynigwyr gynnig y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu arolwg i sicrhau cyfraddau ymateb uchel. Oherwydd Covid-19, disgwylir mai dull ffôn neu ar-lein yw'r rhai mwyaf priodol.

Dylai cynigwyr hefyd roi manylion am sut y byddent yn lliniaru sialensau posibl gyda dulliau gwerthuso (e.e. cyfraddau ymateb isel), o fewn eu cynigion.

Dylai cynigwyr ystyried amseroedd mwyaf priodol o ran cysylltu â sefydliadau ac unigolion er mwyn sicrhau'r ymateb gorau.

Anogir cynigwyr i gynnig dulliau ansoddol sy'n briodol i fodloni'r nodau gwerthuso. Byddai cyfweliadau, grwpiau ffocws gyda sefydliadau a ariannwn, unigolion a gweithwyr creadigol proffesiynol a dulliau eraill (e.e. astudiaethau achos) yn rhoi dealltwriaeth gyfoethocach.

## 6. Allbynnau/canlyniadau gwasanaeth

Dyma ddiffinio'r allbynnau fel gwybodaeth am ledaenu, defnyddio cyhoeddiadau, amseriad a chyfrifoldebau.

Prif gyflawniadau'r prosiect fydd:

Llunio cyflwyniad yn dilyn cyfarfod cychwynnol – manylu ar y cynllun gwaith llawn y cytunwyd arno gan gynnwys cofnod manwl o'r cyfarfod cychwynnol. Dylai roi manylion am bob cam o'r gwaith ymchwil (fel dull methodolegol, dyrannu tasgau, amserlenni cyfatebol, amserlenni adrodd, rheoli risg, mesurau Diogelu Data, trefniadau rheoli a chynlluniau wrth gefn).

Cynhelir cyfarfod cychwynnol ar ddechrau'r gwerthusiad ac efallai y bydd angen cyfarfod cynnydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru cyn i gam olaf yr ymchwil ddechrau.

Adroddiad interim – Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad interim gael ei lunio a fydd yn cyflwyno canfyddiadau cychwynnol o'r ymchwil. Cytunir ar amcanion, arddull a strwythur yr adroddiad hwn ar y dechrau.

Diweddariadau rheolaidd – sy’n manylu ar sut mae'r gwaith yn mynd rhagddo, nodi risg i'r amserlen a'r camau nesaf.

Cyflwyno prif ganfyddiadau – inni cyn cyflwyno'r adroddiad gwerthuso terfynol. Efallai y gofynnwn am gyfarfod cynnydd hefyd i drafod canfyddiadau’r adroddiad cyfamserol.

Adroddiadau Terfynol Dwyieithog – yn dilyn yr holl waith maes a dadansoddi bydd adroddiad terfynol yn cael ei lunio yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn cynnwys Crynodeb Gweithredol annibynnol. Bydd angen cyfieithu'r fersiwn derfynol a chaiff ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru ar ôl ei gymeradwyo. Dylai pob allbwn (Cymraeg a Saesneg) gael sicrwydd ansawdd gan y person dynodedig yn y tîm ymchwil dan gontract a dylai fod yn brawfddarllen yn broffesiynol cyn ei gyflwyno. Dylai pob allbwn y gellir ei gyhoeddi fod yn addas i'w gyhoeddi fel cynnyrch Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) o ran ansawdd a fformat a bydd ei angen yn Gymraeg ac yn Saesneg. Lle y bo'n briodol, dylid cynhyrchu ffeithlun i'w gyhoeddi.

## 7. Cyllideb

Uchafswm y gyllideb yw £20,000 a chofiwch mai gwerth am arian yw un o'r meini prawf dethol. Nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys TAW. Bydd gwerth TAW yn cael ei ychwanegu at y pris uchod os yw'n berthnasol.

Rhaid i unrhyw gynnig a gyflwynir gynnwys yr holl gostau gan gynnwys TAW, os yw'n berthnasol, a’i ddangos ar wahân, a chael ei bennu ar gyfer cyfnod y contract.

## 8. Cyflwyno eich cynnig

Cyflwynwch eich cynnig yn uniongyrchol i'r cyfle a hysbysebir ar borth GwerthwchiGymru erbyn **hanner dydd 24ain o Ionawr 2022**.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eu dyfynbris yn cael ei dderbyn heb fod yn hwyr-
ach na'r amser penodedig.

Rydym yn croesawu ymatebion drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith a chaiff pob cynnig eu trin yn gyfartal ni waeth am ei iaith.

**Noder na fydd unrhyw gyflwyniadau hwyr neu anghyflawn yn cael eu hystyr-ied.**

Cyflwynwch eich cynnig yn uniongyrchol i'r cyfle a hysbysebir ar borth GwerthwchiGymru.

Rhaid cofrestru eich diddordeb ymlaen llaw ar y porth i weld y briff ac unrhyw ddiweddariadau.

Ni ddylid anfon tendrau drwy unrhyw ddull arall ac ni chânt eu derbyn os cânt eu hanfon mewn ffordd arall neu eu derbyn ar ôl y dyddiad cau.

Dylech sôn yn eich cynnig am y canlynol:

• Eich ymatebion manwl i bob un o'r meini prawf (gweler: gofynion tudalen 11)
• Amserlen y prosiect, gan gynnwys dyddiad gorffen
• Pwy fydd yn gweithio ar y prosiect, gyda gwybodaeth a thystiolaeth profiad perthnasol
• Dadansoddiad o'r nifer o ddiwrnodau ar gyfer y gwaith a'r gyfradd ddyddiol
• Cyfanswm y ffi ar gyfer y cynnig, gan gynnwys TAW a threuliau. Dylid dangos TAW ar wahân a rhoi'r Rhif Cofrestru TAW

Gall Darpar Ddarparwyr ofyn am eglurhad ar unrhyw un o'r pwyntiau a geir yn nogfennau'r Tendr cyn y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau egluro. Rhaid cyflwyno'r holl gwestiynau egluro drwy'r porth ar gyfer ymateb.
Sicrhewch fod yr holl ddogfennau cysylltiedig yn cael eu cwblhau'n briodol a'u bod yn cael y Tendr.

Bydd GwerthwchiGymru yn gwrthod unrhyw dendr ar ôl y dyddiad cau. Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno'n brydlon gynnig cyflawn. Y Dyddiad Cau yw'r adeg pan dderbynnir cyflwyniad y Tendr yn ei gyfanrwydd gan GwerthwchiGymru.

Nid agorwn yr un tendr tan ar ôl y dyddiad cau felly nid oes mantais o gyflwyno'n gynnar. Peidiwch â'i gyflwyno'n rhy gynnar rhag ofn ichi fethu â gweld gwybodaeth bwysig mewn ymateb i gwestiynau.

Nid ystyriwn wybodaeth ychwanegol na ofynnwn amdani.

## 9. Ymholiadau am eglurhad

Byddwn ni'n ymdrechu i ateb pob cwestiwn cyn gynted â phosibl, ond ni allwn warantu ateb erbyn amser penodol.

Dim ond drwy borth GwerthwchiGymru y gellir cyflwyno ceisiadau an eglurhad a hynny **hyd at ganol nos ar Ionawr y 19eg 2022.**

Ni fyddwn ni'n derbyn unrhyw geisiadau am eglurhad ar ôl **hanner nos ar Ionawr y 19eg 2022**.

Er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn gyfartal, rydym ni'n bwriadu cyhoeddi'r cwestiynau gyda'n hatebion (ond heb ddatgelu oddi wrth bwy y daeth y cwestiynau) drwy borth GwerthwchiGymru. Bydd y porth yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am unrhyw ddiweddariadau.

Bydd esboniadau'n cael eu hanfon drwy'r porth GwerthwchiGymru.

## 10. Amserlen

| | |
|---|---|
| Hysbysebu tendr ar GwerthwchIGymru | 10ed o Ionawr 2022 |
| Ymatebion tendr yn ôl | **hanner dydd, 24ain o Ionawr 2022** |
| Gwerthuso | **wythnos sy'n dechrau ar y 24ain o Ionawr 2022** |
| Cwestiynau egluro | **Canol nos ar y 19eg o Ionawr 2022** |
| Cyfweliadau posibl | **wythnos sy'n dechrau ar yr 31ain o Ionawr 2022** |

| | |
|---|---|
| Rhoi’r gwaith | wythnos sy’n dechrau ar y 7ed o Chwefror 2022 |
| Diwedd y contract | 4ydd o Fehefin 2022 |

Rydym ni’n rhagweld y bydd y prosiect yn dechrau yn ystod Chwefror 2022 ac yn gorffen cyn gynted ag y bo modd ac erbyn mis Mehefin 2022. Rhowch amserlen fanwl gyda'ch cyflwyniad.

## 11. Gwerthuso

Bydd y broses dendro’n sicrhau bod tendrau'n cael eu gwerthuso mewn modd agored a thryloyw. Swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru fydd yn rhoi'r contract, yn seiliedig ar asesiad o ba mor dda maent yn gweddu â gofynion y briff.

Nid ydym ni’n rhwym o dderbyn y cynnig isaf nac unrhyw gynnig ac ni fyddwn ni’n rhwym o dderbyn y contractwr fel unig gyflenwr.
Byddwn ni’n asesu ymatebion yr ymgeiswyr yn ôl pob un o'r meini prawf uchod (adran 4) ac yn gwerthuso fel a ganlyn:

| Sgôr | Meini prawf sgorio |
|---|---|
| 4 | Mae ymateb yr ymgeisydd yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi'n glir dystiolaeth gynhwysfawr y bydd yr ymateb yn cyflawni'r holl ofynion. Mae'r ymateb hefyd yn dangos sut y darperir gwerth ychwanegol perthnasol. |
| 3 | Mae ymateb yr ymgeisydd yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi'n glir dystiolaeth gynhwysfawr y bydd yr ymateb yn cyflawni'r holl ofynion. |
| 2 | Mae ymateb yr ymgeisydd yn galluogi'r gwerthuswr i ddeall sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi tystiolaeth ddigonol y bydd yr ymateb yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion. Mae'n bosibl bod yr ymateb naill ai wedi codi pryder, sawl mater bach, neu'n anghyson mewn rhai agweddau. |

| | |
|---|---|
| 1 | Nid yw ymateb yr ymgeisydd yn galluogi'r gwerthuswr i ddeall sut y bodlonir y gofyniad. Ni all y gwerthuswr nodi'n glir y bydd yr ymateb yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion oherwydd diffyg tystiolaeth a/neu nad yw'r ymgeisydd ddim ond yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig. |
| 0 | Mae'r gwerthuswr o'r farn bod yr ymgeisydd wedi methu ag ateb y cwestiwn neu roi ymateb perthnasol. |

Gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod, bydd ymateb yr ymgeisydd i bob maen prawf yn cael ei werthuso a'i sgorio yn unol â'r pwysoliad fel a ganlyn:

| | Meini prawf | Sgorio | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| 1. | Lefel uchel o sgil a phrofiad ym maes datblygu'r Gymraeg | 16 = rhagorol<br>12 = da<br>8 = iawn<br>4 = gwael<br>0 = gwael iawn | x4 |
| 2. | Dealltwriaeth drylwyr o'r sector celfyddydau a materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 12 = rhagorol<br>9 = da<br>6 = iawn<br>3 = gwael<br>0 = gwael iawn | x3 |
| 3. | Dealltwriaeth o lwybrau datblygu gyrfa presennol | 8 = rhagorol<br>6 = da<br>4 = iawn<br>2 = gwael<br>0 = gwael iawn | x2 |
| 4. | Methodoleg effeithiol sy'n ymateb i'r cyfyngiadau ymbellhau corfforol presennol a achoswyd gan y pandemig ond sy'n sicrhau ymgysylltiad manwl ac ystyrlon â chymunedau | 4 = rhagorol<br>3 = da<br>2 = iawn<br>1 = gwael<br>0 = gwael iawn | Dim pwysoliad |
| 5. | Profiad o ymgymryd â phrosiectau tebyg mewn mannau eraill | 4 = rhagorol<br>3 = da<br>2 = iawn | Dim pwysoliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 1 = gwael<br>0 = gwael iawn | |
| 6. | Dealltwriaeth o flaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau a'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni | 4 = rhagorol<br>3 = da<br>2 = iawn<br>1 = gwael<br>0 = gwael iawn | Dim pwysoliad |
| 7. | Profiad o gyflwyno prosiectau cymhleth yn amserol ac i gyllideb | 4 = rhagorol<br>3 = da<br>2 = iawn<br>1 = gwael<br>0 = gwael iawn | Dim pwysoliad |
| 8. | Y gallu i ddechrau'r gwaith yn gyflym ac i weithio'n ddwys i fodloni terfynau amser | 4 = rhagorol<br>3 = da<br>2 = iawn<br>1 = gwael<br>0 = gwael iawn | Dim pwysoliad |
| 9. | Yn cynrychioli gwerth da am arian | 4 = rhagorol<br>3 = da<br>2 = iawn<br>1 = gwael<br>0 = gwael iawn | Dim pwysoliad |
| | Cyfanswm y sgôr uchaf | 60 | |

Mae cyfanswm y marciau sydd ar gael yn y tabl uchod yn cynnwys unrhyw bwysoliad sy'n gymwys. Rhaid i ymgeiswyr fod yn glir ac yn gynhwysfawr gan gadw eu gwybodaeth yn benodol i bob maen prawf am mai dyma sail y sgorio.
Cadwn yr hawl i beidio â rhoi'r contract i'r tendr pris isaf neu unrhyw dendr, gan gadw'r hawl hefyd i dderbyn yr un peth yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

## 12. Cyfweliadau (posibl)

Rydym ni'n rhagweld y byddwn yn penodi'r darparwr/darparwyr yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnig fel y dywedwn uchod. Ond byddwn yn cadw'r hawl

i wahodd hyd at bum ymgeisydd sy'n sgorio'r marciau uchaf i gyfweliad, os byddwn ni’n teimlo bod angen cyfweliadau.

Diben y cyfweliad posibl fydd tawelu meddwl y Cyngor ac Amgueddfa Cymru bod yr ymgeisydd yn deall ein gofynion yn llawn, ac y byddai perthynas waith gref a chydweithiol gyda'r cyflenwr yn debygol o ddatblygu.

Os cynhelir cyfweliadau, rhoddwn wybod am amser a dyddiad y cyfweliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl dyddiad dychwelyd y tendr, sef y **24ain o Ionawr 2022**. Rhaid iddynt fod yn yr wythnos sy'n dechrau ar y **31ain o Ionawr 2022**. Bydd y cyfweliadau ar-lein ac ni fyddant yn para mwy nag awr.

Dylai ymgeiswyr nodi na fydd rhagor na thri pherson yn gallu dod i’r cyfweliad. Rhaid i ymgeiswyr gynnwys y rheolwr contract a fydd yn gyfrifol am y contract ynghyd ag aelodau perthnasol o staff a fydd yn gweithio ar y contract.

Ni fydd unrhyw feini prawf na phwysoliad newydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfweliad na marciau newydd yn cael eu rhoi. Bydd y panel gwerthuso yn defnyddio'r ymatebion i'r cyfweliad fel sail i gynyddu neu leihau gyfanswm y sgoriau a roddwyd yn wreiddiol.

Ar ddiwrnod y cyfweliad, gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno’r canlynol:

| **Eitem** | **Amser a neilltuir** |
|---|---|
| Trosolwg o'r systemau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu | 25 munud |
| Cwestiynau gan y panel gwerthuso | 25 munud |

## 13. Manylion y contract

Contract tymor penodol fydd hwn.
Disgwylir i'r contract ddechrau ar **y 7ed o Chwefror 2022** am gyfnod o 4 mis ar y mwyaf a bydd yr holl brisiau'n aros yn ddigyfnewid ar gyfer y cyfnod.

Dylai eich cyllideb arfaethedig gynnwys TAW (lle y bo'n briodol) yn ogystal â chostau teithio a threuliau eraill a ddaw'n uniongyrchol o'r gwaith.

Bydd eich cynnig yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyngor i ymgeiswyr (Atodiad 1) a'r gofynion a amlinellir yn y gwahoddiad.

Dyma amserlen y taliadau:

- 40% wrth roi'r contract
- 40% pwynt canol
- 20% ar ôl cyflawni'r contract yn foddhaol

Gwneir y taliadau drwy BACS mewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb foddhaol. Mae'r Cyngor ac Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i leihau effaith ei waith ar yr amgylchedd ac rydym ni'n annog ein cyflenwyr i fabwysiadu ffordd o weithio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gyda'r nod o leihau niwed iddo.

## 14. Trefniadau is-gontractio

Heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw, ni chaiff yr ymgeisydd aseinio'r cytundeb nac is-gontractio unrhyw gyfran o'r gwaith. Bydd y caniatâd yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y gwêl y Cyngor yn dda i'w gosod.

## 15. Trosglwyddo ar ddiwedd y contract

Ar ddiwedd y contract, bydd y taliad olaf ddim ond yn cael ei wneud ar ôl gorffen yr holl faterion sydd heb eu datrys, gan gynnwys trosglwyddo'r holl wybodaeth, cofnodion a data ac ati.

## Atodiad 1
## Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

### 1. CYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL

1.1 Nod y cyfarwyddiadau yw sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ystyriaeth gyfartal a theg. Mae'n bwysig felly eich bod yn darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y fformat a'r drefn a bennir.
1.2 Dylai ymgeiswyr ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn llenwi'r dogfennau tendro. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn ar gyfer cyflwyno'r tendr arwain at wrthod y tendr. Rhaid i ymgeiswyr ymgyfarwyddo'n llawn â graddau a natur y gwasanaethau a rhwymedigaethau cytundebol.
1.3 Bydd yr holl ddeunydd a gyhoeddir mewn cysylltiad â'r gwahoddiad yn parhau'n eiddo i'r Cyngor ac Amgueddfa Cymru a chaiff ei ddefnyddio at ddibenion yr ymarfer caffael yma'n unig.
1.4 Ni fydd yr ymgeisydd yn cysylltu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw gyflogai, asiant neu ymgynghorydd i'r Cyngor ac Amgueddfa Cymru sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'r ymarfer caffael yma, oni chyfarwyddir yn wahanol gan y Cyngor.
1.5 Bydd ymgeiswyr yn derbyn a chydnabod na fydd y Cyngor, drwy gyhoeddi'r gwahoddiad yma, yn rhwym o dderbyn unrhyw dendr ac yn cadw'r hawl i beidio â mynd i gontract ar gyfer rhan neu'r cyfan o'r gwasanaethau y gwahoddir tendrau ar eu cyfer.
1.6 Pan fo gofyn i ymgeiswyr gyflwyno dogfen wedi'i hatodi mewn ymateb i gwestiwn, rhaid cyflwyno atodiadau mewn fformat derbyniol i'r Cyngor. Mae fformatau derbyniol yn cynnwys:

- MS Word
- MS Excel
- MS PowerPoint
- jpeg
- pdf

Dylai ymgeiswyr sydd am gyflwyno atodiad mewn fformat arall holi'r Cyngor yn gyntaf i weld a fydd yn dderbyniol. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i farnu bod ymateb yn anghyflawn os na fydd atodiad yn un o'r fformatau uchod heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cyngor.
1.7 Ar unrhyw adeg yn ystod yr ymarfer caffael mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cyfan neu unrhyw ran o'r gwahoddiad neu ychwanegu ato neu ei dynnu'n ôl.
1.8 Gellir cyflwyno pob ymateb i'r gwahoddiad yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

## 2. CYFRINACHEDD

2.1 Yn amodol ar yr eithriadau yng nghyfarwyddyd 2.2, mae cynnwys y gwahoddiad yn cael ei ddarparu gan y Cyngor ar yr amod y bydd ymgeiswyr yn gwneud y canlynol:

2.1.1 trin cynnwys y gwahoddiad ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig (rydym ni'n eu galw'n 'wybodaeth') bob amser yn gyfrinachol, ac eithrio i'r graddau eu bod eisoes yn hysbys i'r cyhoedd

2.1.2 peidio â datgelu, copïo, atgynhyrchu, dosbarthu na throsglwyddo unrhyw wybodaeth i unrhyw berson arall ar unrhyw adeg na chaniatáu i unrhyw un o'r pethau hyn ddigwydd

2.1.3 peidio â defnyddio unrhyw wybodaeth at unrhyw ddiben heblaw at ddibenion cyflwyno tendr (neu benderfynu a ddylid ei gyflwyno)

2.1.4 peidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgarwch cyhoeddusrwydd ar unrhyw gyfryngau

2.2 Gall ymgeiswyr ddatgelu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw wybodaeth i ymgynghorwyr, isgontractwyr yr ymgeisydd (neu bobl eraill) ar yr amod bod:

2.2.1 hyn yn digwydd at y diben yn unig o alluogi cyflwyno tendr a bod y person sy'n derbyn yr wybodaeth yn ymgymryd yn ysgrifenedig i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol ar yr un telerau â phe bai'r person yna'n ymgeisydd

2.2.2 yr ymgeisydd yn cael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw mewn perthynas â datgelu, dosbarthu neu drosglwyddo gwybodaeth o'r fath

2.2.3 y datgeliad at y diben yn unig o gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr allanol am gaffael yr hyn sydd ei angen neu am unrhyw gontract sy'n deillio ohono

2.2.4 rhaid yn ôl y gyfraith i'r ymgeisydd wneud y fath ddatgeliad

2.3 O ran cyfarwyddiadau 2.1 a 2.2 uchod, mae'r diffiniad o 'berson' yn cynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, sefydliad, corff neu gymdeithas, corfforedig neu anghorfforedig (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain ychwaith).

## 3.DIOGELU DATA A RHYDDID GWYBODAETH

3.1 Rhaid rhoi sylw dyledus i ofynion cyfrinachedd y contract ac i Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

3.1.1 Bydd y contractwr yn sicrhau bod yr holl waith o brosesu data personol, sy'n ymwneud â'r contract, o'r cychwyn hyd at y diwedd, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

3.1.2 Gall y contractwr brosesu data personol a/neu ddata personol sensitif o bryd i'w gilydd wrth gyflawni ei rwymedigaethau dan y contract. Ni fydd y contractwr yn prosesu'r cyfryw ddata personol a/neu ddata personol sensitif (fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau) heblaw am yn unol â'r contract y gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd, drwy gytundeb ar y cyd. Dim ond yn ystod cyfnod y contract y bydd gan y contractwr hawl i brosesu data personol, neu hyd nes y caiff ei derfynu, pa un bynnag yw'r cynharaf.
3.1.3 Ni fydd y contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau dan y cytundeb mewn ffordd sy'n peri i'r parti arall dorri unrhyw un o'i rwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth diogelu data.
3.1.4 Bydd y contractwr bob amser yn sicrhau y glynir wrth gyfrinachedd y bobl sy’n cymryd rhan yn yr arolwg ac na ryddheir unrhyw ddata a allai fod yn gysylltiedig ag unigolyn adnabyddadwy, heb ganiatâd yr unigolyn. Rhaid ei gwneud yn glir i'r cyfranogwyr yn eu taflenni gwybodaeth a'u llythyrau, mai'r unig bobl a fydd yn gweld y data fydd aelodau allweddol o dîm y contractwr a'r sefydliadau comisiynu.
3.1.5 Bydd y contractwr yn gyfrifol am sicrhau nad yw unrhyw ddata a gesglir yn peryglu cyfrinachedd ymatebwyr.
3.1.6 Bydd disgwyl i'r contractwr llwyddiannus storio ffurflenni wedi'u llenwi’n ddiogel ac am gyfnod y contract yn unig.

3.2 Bydd yr ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb ac ymrwymiad i’r meysydd yma.
3.3 Yn unol â'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau cyhoeddus gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i’r Cyngor ddatgelu’r wybodaeth a gyflwynir gan yr ymgeiswyr.
3.4 Bydd y Cyngor yn cadw cyfrinachedd. Ond dylai ymgeiswyr wybod, hyd yn oed lle y nodir bod gwybodaeth yn sensitif o safbwynt masnachol, y gallai fod yn ofynnol i’r Cyngor ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
3.5 Mae'n rhaid i’r Cyngor lunio barn annibynnol ynghylch a yw'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac a yw budd y cyhoedd yn ffafrio ei datgelu ai peidio. Yn unol â hynny, ni all y Cyngor warantu na chaiff unrhyw wybodaeth a nodir yn 'gyfrinachol' neu’n ‘sensitif yn fasnachol’ ei datgelu.